

# Storiau o'r Cymoedd

## Pecyn Dysguk



## Beth yw prosiect “Straeon y Cymoedd”?

Pwrpas Straeon o'r Cymoedd yw dod â sgysiau cyffredin, dydd-i-ddydd, ond pwysig, sy'n digwydd mewn cymunedau, ysgolion, colegau, y gweithle, clybiau chwaraeon a llefydd eraill i olau dydd. Y nod yw creu deunydd defnyddiol sy'n gallu cael ei ddefnyddio i annog pobl i archwilio a deall materion allweddol yn eu cymuned, ac i greu ffyrdd newydd o ddelio â'r materion hyn gyda'i gilydd.

Mae sawl ffordd y gallwch chi gymryd rhan yn y prosiect hwn, o ymrwymo i ysgrifennu Dyddiadur Dysgu dyddiol sy'n cofnodi eich profiadau beunyddiol o ddysgu a gweithio, i fynd allan a chyfweld pobl eraill yn eich ardal leol am sut brofiad yw cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau, neu am ystyr byw mewn cymuned heddiw.

Er ein bod ni'n croesawu ceisiadau i gymryd rhan oddi wrth sefydliadau, ysgolion, colegau neu weithleoedd, does dim rhaid i chi berthyn i un o'r grwpiau hyn i gymryd rhan. Efallai eich bod chi wedi gadael ysgol yn gynnar er mwyn gweithio ac ennill arian, neu ar ôl gweithio am flynyddoedd, rydych chi'n neilltuo eich amser i fod yn wirfoddolwr? Efallai eich bod chi'n ceisio dod o hyd i waith drwy gyfrwng y ganolfan waith ar hyn o bryd, ac yn chwilio am rywbeth arall i'w ychwanegu at eich CV? Mae'r maes gweithgaredd hwn yn ymwneud â dysgu a byw yn y Cymoedd, waeth beth yw eich oedran, eich cefndir, rydym ni eisiau clywed sut beth yw hynny i chi!

Os ydych chi'n unigolyn, yna pwrpas y Pecyn Addysg hwn yw i'ch helpu i gael mynediad i'r Dyddiadur Dysgu er mwyn cofnodi eich profiadau dysgu eich hunan, a hefyd i'ch cyfeirio at offer ymarferol eraill i fynd â chi allan i'ch ardal leol i siarad â'r bobl o'ch cwmpas. Ein henw ni ar yr ail ddull hwn yw 'Newyddiaduraeth Ddinasyddol'. Gall unrhyw un fod yn Newyddiadurwr Dinasyddiol, drwy ddefnyddio ein ap casglu storïau, SenseMaker®, i gofnodi'u cyfweiliadau.

Mae'r dull o gasglu straeon yn seiliedig ar ugain mlynedd o ymchwil a phrofiad. Nawr, rydym ni eisiau gwneud hyn mor agored â phosib fel ffordd o ddod ag unigolion, cymunedau a llywodraethau ynghyd i ddeall beth sy'n digwydd, beth sy'n mynd yn dda – beth sydd ddim cystal – a'r pethau sy'n fwyaf pwysig.

Ystyr hyn yw y bydd modd i chi gael mynediad i'r data a gasglwyd gennych chi a chan eraill yn eich cymuned, a bydd digwyddiadau dilynol pan fydd modd i unigolion a grwpiau ddod at ei gilydd i drafod beth sy'n digwydd nesaf. Y syniad yw bod modd i gymunedau, drwy gasglu a rhannu storïau, allu datblygu atebion lleol i broblemau lleol, a helpu i ddylanwadu ar benderfyniadau'r llywodraeth drwy ofyn 'Sut ydym ni'n creu mwy o straeon cadarnhaol fel hyn, a llai o rai negyddol fel hwnna?'

Felly, cymerwch ran, lleisiwch eich barn, a gwnewch wahaniaeth ble mae'n cyfri fwyaf.

<https://storiauycymoedd.com/cy>

#TrafodyCymoedd



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Beth ydw i'n ei gael o hyn?

## Fel unigolyn

Drwy gwblhau dyddiadur dysgu dyddiol CHI fydd yn gyfrifol am gofnodi sut brofiad yw bod mewn addysg neu waith, neu chwilio am waith yn y Cymoedd. Dyma gyfle i ddweud eich barn a chodi llais i helpu i ddylanwadu ar benderfyniadau'r llywodraeth.

Drwy ddod yn Newyddiadurwr Dinasyddol, gallwch CHI archwilio'r pynciau allweddol yn eich cymuned. O dimau chwaraeon i feysydd cyhoeddus i drafnidiaeth gyhoeddus, chi a'ch cymuned fydd yn penderfynu beth sy'n bwysig, a byddwch chi'n gweithio gydag eraill i wneud rhywbeth amdano fe.

Bydd cyfleoedd hefyd i gael hyfforddiant achrededig a gwobrau am gwblhau heriau. Rhywbeth ychwanegol i fynd ar eich CV, neu eich cais i fynd i goleg neu brifysgol!



# Beth ydw i'n ei gael o hyn?

## Fel sefydliad

Bwriad y prosiect yw darparu offer a hyfforddiant i bobl, cymunedau a sefydliadau i gymryd rhan mewn sgysiau ystyrllon drwy 'Newyddiaduraeth Ddinasyddol', yn ogystal â defnyddio'r data a gesglir i effeithio gweithredu cadarnhaol yn lleol, ac i addysgu gwaith a chynigion yn seiliedig ar dystiolaeth leol.

Rydym ni'n chwilio am ysgolion, colegau, hybiau gwirfoddolwyr, canolfannau gwaith: gall unrhyw un a phawb fod yn rhan o hyn.

Fel prosiect cydweithredol ar draws Cymoedd De Cymru, bydd yr wybodaeth sy'n dod allan o'r prosiect ar gael i bawb sy'n cymryd rhan. Rydym ni'n gweithio i greu set gyfoethog ac amrywiol o wybodaeth ble gall pobl a sefydliadau wneud cyfraniad bach o ran eu hamser yn gyfnewid am gael mynediad i ryw beth llawer iawn mwy!

Bydd yr wybodaeth a gesglir hefyd yn cael ei defnyddio i addysgu cynllun Tasglu'r Cymoedd, gan ddefnyddio profiadau pobl go iawn i ddylanwadu ar strategaeth y Llywodraeth.



# Sut ydw i'n cymryd rhan? Beth ddylwn i?



## Llawer o ddewisiadau...

Os ydych chi'n unigolyn, neu'r rhan o glwb neu sefydliad, mae digonedd o ffyrdd y gallwch chi gymryd rhan. Gallwch chi ddewis pa bynnag opsiwn sydd orau i chi, a gallwch ddewis un ohonynt, neu'r cyfan!



Dewiswch gadw Dyddiadur Dysgu ar SenseMaker®, h.y. rhannwch stori o leiaf unwaith yr wythnos. Rhannu un bob deuddydd sy'n ddelfrydol.



Defnyddiwch un o'n pecynnau Cymunedol neu Chwaraeon eraill i rannu stori / rhannu cynifer o straeon ag y dymunwch



Dewiswch gyfweled pobl eraill i gael eu straeon – dewch yn newyddiadurwr dinasyddol!



Rhannwch y dolennu URL gyda'ch ffrindiau a'ch teulu er mwyn iddyn nhw allu rhoi'u straeon hefyd.

Os hoffech gael cymorth i ddechrau, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda:  
[helo@storiauycymoedd.com](mailto:helo@storiauycymoedd.com)

<https://storiauycymoedd.com/cy>

#TrafodyCymoedd



# Cyfarwyddiadau'r Wefan

Os hoffech gyflwyno eich cynigion drwy borwr gwe ar liniadur neu gyfrifiadur, dilynwch y cyfarwyddiadau isod os gwelwch yn dda.

I gymryd rhan yn y Dyddiadur Dysgwr rhaid i chi ateb rhai cwestiynau amdanoch chi **yma** gyntaf.

Os gwelwch yn dda, wnewch chi gofrestru a chreu enw logio i mewn a chyfrinair ar eich cyfer chi. Am y bydd rhai storïau'n cael eu rhannu mewn digwyddiadau cymunedol, rydym ni'n gofyn i chi beidio â defnyddio eich enw cyntaf nag unrhyw wybodaeth allai arwain at eich adnabod fel enw logio i mewn.


Unwaith y byddwch chi wedi cwblhau'r cwestiynau demograffig, cliciwch **yma** wedyn, os gwelwch yn dda, i roi'r manylion logio i mewn yr ydych chi newydd eu creu ac i rannu eich straeon bob dydd!

# Cyfarwyddiadau Apiau

Os hoffech lawrlwytho'r ap ar eich ffôn clyfar neu ddyfais Android, dilynwch y cyfarwyddiadau isod os gwelwch yn dda.

I gymryd rhan yn y Dyddiadur Dysgwr, rhaid i chi lawrlwytho'r apiau SenseMaker ar i'ch ffôn clyfar neu ddyfais llechen ddigidol yn gyntaf.

1. Agorwch eich iTunes/App Store neu Play Store ar eich dyfais symudol.
2. Chwiliwch am 'SenseMaker'.
3. Dylech weld y canlyniadau isod.



**SenseMaker**  
By Cognitive Edge Pte Ltd

Open iTunes to buy and download apps.



View in iTunes

#### Description

SenseMaker® enables organisations to better understand the environment in which they work by gathering the micro-narratives of day-to-day conversations along with answers to questions about shared micro-narratives.

Responses to different sets of questions about day-to-day experiences provide insights into the way people understand their world and identity across selected contexts.

As such, SenseMaker® provides an advanced decision-support tool for commercial organisations, NGOs and governments.

[SenseMaker Support](#)

[View More by This Developer](#)

**SenseMaker Explorer**  
By Cognitive Edge Pte Ltd

Open iTunes to buy and download apps.



#### Description

SenseMaker® Explorer for iPad, provides access to material collected through SenseMaker® Collector for iPad and iPhone, iOS and web capture.

Through simple visual representations, it provides access and basic analysis of material collected with SenseMaker® Collector in the form of text, recordings and images in a suite of sense-making tools that provide quantitative approaches in what has been a qualitative field.

[SenseMaker Explorer Support](#)

[view more by](#)

<https://storiauycymoedd.com/cy>

#TalkValleys



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

4. Lawrlwythwch yr un os ydych chi ar Android, y ddau os ydych chi ar iOS. Nodwch os gwelwch yn dda mai dim ond casglu sy'n bosib ar yr ap Android. Mae'r apiau iOS yn darparu casglu data (Collector) – iPhone ac iPad – ac archwilio (Explorer) – iPad yn unig.

Bydd angen i chi roi rhywfaint o wybodaeth amdanoch chi ar y sgrin 'pop-up'. Bydd y cwestiwn olaf yn gofyn i chi am "LinkID". Ar gyfer hyn, rhowch i mewn 6 rhifolyn olaf eich rhif ffôn symudol. Fyddwn ni ddim yn rhannu'r wybodaeth hyn gyda neb arall, ond mae'n ein helpu i gadw cofnod o sawl tro y bydd un person yn rhoi stori.

Unwaith y byddwch chi wedi cwblhau'r cam cyntaf hwn, dilynwch y cyfarwyddiadau isod:

1. Tapiwch "Download Activities".
2. Rhowch y côd gweithgaredd: "VTFdemo" i mewn (gan ddilyn llythrennau mawr a bach fel y gwreiddiol).
3. Yna dewiswch "VTFdemo" o'ch gweithgareddau a lawrlwythwyd, os gwelwch yn dda, ac atebwch y cwestiynau sy'n ymddangos ar eich sgrin.
4. Cliciwch unwaith eto ar y tab "Download Activities" tab, gan roi'r côd Gweithgar-edd "VTFLearner" (gan ddilyn llythrennau mawr a bach fel y gwreiddiol) y tro hwn.
5. Nawr gallwch fwrw ymlaen i gwblhau eich cofnod dyddiadur yn ddyddiol.

Diolch i chi am roi o'ch amser i ddarllen y cyfarwyddiadau hyn. Pob hwyl gyda'r dyddiadura!

**Ar y llaw arall, os oes gennych ddi-ddordeb mewn dod yn Newyddiadurwr Dinasyddol, bwriwch ati a lawrlwythwch un neu'r ddau weithgaredd seilir ar Chwaraeon a'r Gymuned gan ddefnyddio'r codau isod:**

1. VTFSport\_CY
2. VTFCCommunity\_CY

Drwy ddefnyddio'r codau hyn gallwch rannu eich storïau eich hun a mynd allan i'ch ardal chi a chyfweld unrhyw un, ar ôl cael eu caniatâd. Os dymunwch, gallwch edrych ar feysydd eraill y wefan ar Chwaraeon a'r Gymuned i ymgysgu â'r meysydd pwnc neu i gael syniadau ynglŷn â ble y gallech chi fynd i gasglu storïau. Pob hwyl gyda'r Newyddiadura Dinasyddol!

**“Archwilio straeon y gorffennol a'r presennol drwy lygaid y dyfodol”.**



# Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan: [storiauycymoedd.com/cy](https://storiauycymoedd.com/cy)

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr ymdrechion a seilir yn y gymuned, cysylltwch â ni: [helo@storiauycymoedd.com](mailto:helo@storiauycymoedd.com)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am SenseMaker® a'r fethodoleg, cysylltwch â'n cyswllt yng Nghanolfan Cynefin, Jules.Yim: [jules.yim@cognitive-edge.com](mailto:jules.yim@cognitive-edge.com)

---

<https://storiauycymoedd.com/cy>

#TalkValleys



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government